**GORCHYMYN (CAU FFORDD DROS DRO)**

**(STRYDOEDD AMRYWIOL, CILFYNYDD)**

**GORCHYMYN (DIRYMU GORCHYMYN, AMRYWIO, CYFYNGIADAU AROS A THERFYN CYFLYMDER) 2021**

**A HYSBYSIAD CROESFAN I GERDDWYR 2021**

## DATGANIAD O'R RHESYMAU

Yn dilyn galw cyson o du'r gymuned i adolygu'r ddarpariaeth groesi bresennol ar Heol Cilfynydd, mae'r Cyngor wedi cyflwyno cais llwyddiannus i dderbyn cyllid gan Grant Diogelwch y Ffyrdd Llywodraeth Cymru i adolygu'r ddarpariaeth gerdded bresennol yng Nghilfynydd.

Rhan o'r adolygiad yma oedd ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu croesfan newydd i gerddwyr ar Heol Cilfynydd, ymhellach i'r gogledd na'r groesfan bresennol gan nad oedd y groesfan bresennol yn cael digon o ddefnydd. Felly, mae'r Cyngor yn cynnig gweithredu croesfan â signal newydd fel yr amlinellir yn atodlen yr adroddiad.

I ategu'r cynigion yma, mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu cynigion i weithredu terfyn cyflymder 20mya i'r mwyafrif o'r strydoedd yn Ward Cilfynydd.

Yn ogystal, oherwydd bod y droedffordd ar gyffordd Heol y Bedw a Heol Cilfynydd yn cael ei lledu i gwtogi'r pellter croesi i gerddwyr, mae angen newid y cyfyngiadau aros presennol i'w haddasu ar gyfer y 5 metr ychwanegol (ar Heol Cilfynydd) fel yr amlinellir yn atodlen yr adroddiad.

Ystyrir y mesurau yma yn hanfodol i wella llwybrau i gerddwyr a gwella diogelwch y briffordd a diogelwch i gerddwyr. Mae'r mesurau yn unol â'r nod llesiant wedi'i nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**RHONDDA CYNON TAFF**

**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(VARIOUS STREETS, CILFYNYDD)**

**(REVOCATION, VARIATION, WAITING RESTRICTIONS AND SPEED LIMIT) ORDER 2021**

**AND PEDESTRIAN CROSSING NOTICE 2021**

## STATEMENT OF REASONS

Following longstanding calls in the community to review the existing crossing provision on Cilfynydd Road. The Council has successfully bid for and received funding under the Welsh Government Road Safety Grant to review the existing walking provision in Cilfynydd.

Part of this review was to investigate the possibility of the provision of a new pedestrian crossing on Cilfynydd Road, further north than the existing crossing due it being underutilised. Therefore, the Council proposes to implement a new signalised crossing as outlined in the schedule of the report.

To complement these proposals, the Council has also developed proposals to implement a 20 MPH speed limit to the majority of the streets within the Cilfynydd Ward.

Additionally, due to the footway on the junction of Bedw Road and Cilfynydd Road being widened to shorten the crossing distance for pedestrians. There is a need a alter the existing waiting restrictions to accommodate the additional 5 meters (on Cilfynydd Road) as outlined in the schedule of the report.

These changes are considered necessary to improve the movement of pedestrians and improve highway and pedestrian safety in Cilfynydd and are in line with the well-being goal set by the Future Generations (Wales) Act 2015.